Esgobaeth Bangor

# Ad Clerum

Oddi wrth yr Esgob

Mehefin 2009

**Mae'r Esgob yn ysgrifennu…**

Annwyl gyfeillion,

Fel yr wyf yn ysgrifennu atoch mae'r haf yn ceisio ennill goruchafiaeth ond gyda llwyddiant cyfyngedig. Fel hynny y mae mympwy tywydd Prydain. Ers yr Ad Clerum diwethaf ym mis Mawrth cefais y llawenydd o rannu Cymun Bendigaid gyda'r rhan fwyaf o Glerigion yr Esgobaeth a llawer eraill hefyd yn y Gadeirlan. Roedd y Pasg yn ddiwrnod bendigedig ac roedd rhannu newyddion da atgyfodiad Crist eto yn y Gadeirlan yn hyfrydwch. Rwyf yn awr wedi cwblhau mwyafrif f'ymweliadau â'n hysgolion eglwysig a byddaf wedi ymweld â'r cyfan ohonynt cyn toriad yr haf. Bûm hefyd yn falch o ymweld â mwyafrif y deoniaethau a byddaf wedi cwblhau'r cyfan cyn diwedd y flwyddyn. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Deoniaid Bro am y cyfan y maent wedi ei wneud i drefnu'r digwyddiadau hyn ac mae arnaf eisiau pwysleisio pwysigrwydd y ddeoniaeth fel rhan o lywodraeth yr eglwys o fewn esgobaeth ac fel ffynhonnell cymdeithas ar gyfer clerigion a darllenwyr. Rwyf yn ymwybodol bod deoniaethau'n gweithredu mewn gwahanol ffyrdd yn yr esgobaeth ac mae hynny'n anochel ond hefyd bod rhai deoniaethau'n cyfarfod yn anaml iawn. Hoffwn gymell pob deoniaeth (a chlerigion o'u mewn) i gydweithredu a bod yn ymroddedig i'w cydweithwyr. Cyn diwedd y tymor hwn byddwn wedi cwblhau fy Ngofwy Esgobol gyntaf i'r esgobaeth ac edrychaf ymlaen at fod gyda chlerigion sy'n gwasanaethu, darllenwyr a wardeiniaid yn y Gadeirlan am 6yh ar gyfer Archddiaconiaeth Bangor (Gorffennaf 5ed) ac ym Mhorthmadog ar gyfer Archddiaconiaeth Meirionnydd am 7yh (Gorffennaf 8fed). Ers fy Ad Clerum diwethaf mae'r penodiadau a ganlyn wedi eu gwneud:

| | |
|---|---|
| *Parch Ganon Peter R Jones* | *Trwyddedwyd yn Ganon Ganghellor, CadeirlanBangor* |
| *Parch Ganon Madalaine Brady* | *Trwyddedwyd yn Ganon Drysorydd, Cadeirlan Bangor* |
| *Parch Angela Williams* | *Ficer Llandegfan a Llandysilio (Porthaethwy)* |
| *Parch Janice Gourdie* | *Ficer Deneio (fel arall Pwllheli) gydag Abererch* |

**Ordeinio**

Byddwn yn ordeinio 3 diacon i'r offeiriadaeth yr Ŵyl Bedr hon ac yn gofyn i chi weddïo drostynt cyn y gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| *Parch Peter Ward* | *Curad Cynorthwyol yn Llanwnnog a Caersws gyda Carno* |
| *Parch Kathleen Rogers* | *Curad Cynorthwyol ym Machynlleth gyda Llanwrin gyda Phenegoes* |
| *Parch Christina McCrea* | *Curad Cynorthwyol yng Nglanogwen a Llanllechid gyda'r Santes Ann a Phentir* |

Y Gwir Barchedig Andrew John, Tŷ'r Esgob, Bangor, Gwynedd LL57 2SS
☎ 01248 362895 🖷 01248 372454 **b**ishop.bangor@churchinwales.org

Bydd encil yr ordeiniad yn digwydd eleni o dan arweiniad y Canon Dorrien Davies, ficer Llandudoch yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Byddai'n anogol gweld Cadeirlan lawn ddydd Sadwrn 27ain Mehefin am 10.30yb

**Galar**
Cynigiaf fy nghydymdeimlad â'r Parch. Peter McLean ar newyddion trist diweddar marwolaeth ei dad. Estynnir fy nghydymdeimlad hefyd i unrhywun arall sydd wedi bod trwy brofedigaeth yn ddiweddar (ac na pharwyd fy mod yn ymwybodol o hynny). Cofiwch roi gwybod i mi am brofedigaethau ymhlith eich cydweithwyr neu eich teuluoedd.

**Dydd Sul yn ôl i'r Eglwys**
Bydd cyswllt wedi bod â chi mewn perthynas â derbyn pecynnau ar gyfer Dydd Sul yn ôl i'r Eglwys (27ain Medi) y bydd yr esgobaeth yn eu prynu ar gyfer pob plwyf cysylltiedig. A gaf eich cymell i weld hyn yn gyfle ar gyfer cenhadu a bod yn haelionus tuag at y rhai a all fod wedi bod â chyswllt â'r eglwys yn y gorffennol ond nad ydynt mwyach yn mynychu? Mae gwybodaeth bellach am y prosiect ar gael gan y Parchedigion Phil Hughes (Llanfairpwll), Emlyn Williams (Gaerwen) a Janice Gourdie (Pwllheli) yn ychwanegol at Dŷ'r Esgob.

**Yr Archesgobaeth a Chynhadledd yr Esgobaeth**
Bydd Cynhadledd yr Esgobaeth eleni (3ydd Hydref) yn canolbwyntio ar ddyfodol swyddogaeth yr Archesgob yn y dalaith ac ar rai materion amgylcheddol a gwyrdd drwy weinidogaeth ein Swyddog Bywyd Gwledig, y Barch Ariadne Van den Hof. Mae'r mater cyntaf wedi ei drafod yn y dalaith ar nifer o achlysuron ond ni fu cytundeb ar sut i reoli swyddogaeth esgobol a swyddogaeth archesgobol. Y rheswm dros ystyried hyn yn awr yw gweld a oes barn gyffredin yn yr esgobaethau o flaen unrhyw drafodaeth yn y Corff Llywodraethu. Bydd set o gwestiynau i ni eu hystyried a chyfle i drafod.

**Cofrestrydd yr Esgobaeth**
Bydd yr esgobaeth wedi penodi Cofrestrydd yr Esgobaeth newydd erbyn y byddwch yn darllen yr Ad Clerum hwn. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Mrs Sally Dowding am y gwaith a wnaeth fel ein Cofrestrydd blaenorol a dymunwn yn dda iddi yn ei gwaith ym Myrmingham. Rwyf wedi ysgrifennu at Sally i ddiolch iddi am ei gwaith.

**Llyfrgell Deiniol Sant**
Mae Deiniol Sant yn chwilio am 'geidwaid' i gynorthwyo gyda rhedeg y Llyfrgell. Byddai angen amdanynt ar gyfer penwythnosau a dyddiau'r wythnos achlysurol. Maent yn chwilio am bobl a all ymrwymo i gyfnod sy'n fis o leiaf, ac yn hwy os oes modd. Er na thelir i geidwaid, darperir llety iddynt ar sail cinio, gwely a brecwast. Byddant yn cynorthwyo ar y penwythnosau ac weithiau yn yr wythnos yn cynorthwyo staff eraill i sicrhau bod y Llyfrgell yn rhedeg yn llyfn.

Byddai'r swyddogaeth yn gweddu i fyfyrwyr, ymchwilwyr neu aelodau o'r glerigaeth sy'n chwilio am gyfle i ddarllen, ymchwilio neu fyfyrio yn Neiniol Sant neu a fyddai ond yn dymuno cael egwyl. Mae hyn yn agored i breswylwyr Prydeinig a rhyngwladol. Mae graddfeydd arbennig ar gael ar gyfer partneriaid ceidwaid sy'n dymuno ymweld am y cyfan neu am ran o'r geidwadaeth.

Am fanylion pellach cysylltwch â'r Warden, Peter Francis un ai drwy e-bost: peter.francis@st-deiniols.org neu ffoniwch ar 01244 532350.

**Yr Eglwys yng Nghymru – Llyfryn "Arweiniad bach i ddarlun mawr"**
Gellir archebu copïau pellach o'r llyfryn hwn yn rhad ac am ddim drwy Swyddfa'r Esgobaeth. Os na chawsoch olwg ar y llyfryn hwn, mae copïau ar gael o swyddfa'r Esgobaeth yn awr.

**Ysbyty Sant Luc ar gyfer y Clerigion**
Mae Ymddiriedolwyr Ysbyty Sant Luc (St Luke's) ar gyfer y Clerigion wedi cwblhau prydles o eiddo'r ysbyty i BMI Healthcare Ltd. Mae BMI Healthcare yn awr wedi cymryd drosodd rediad yr ysbyty ar gyfer ei gleifion ei hun ac mae'r Ymddiriedolwyr yn cynllunio i werthu'r rhyddfraint, ac wedi hynny byddant yn asesu sut orau i ddefnyddio'r asedau a fydd yn weddill ar gyfer gofal iechyd parhaus y clerigion. Ar y funud, parheir i ymdrin â chyfeiriadau cleifion clerigol gan yr Ysgrifennydd Meddygol, Hazel Adams yn 14 Sgwâr Fitzroy, Llundain W1T 6AH, rhif ffôn: 020 7388 4954.

**Sul y Môr**
Hoffwn gymeradwyo Sul y Môr i chi sydd eleni yn digwydd ar 12fed Gorffennaf. Mae Sul y Môr yn gyfle i chi ddweud wrth eich cynulleidfaoedd am y rhan hanfodol y mae morwyr yn ei chwarae i ddod â chymaint o'n hanghenion dyddiol i ni. Bydd pecyn o adnoddau Sul y Môr, yn cynnwys nodiadau pregeth, gweddïau a deunyddiau plant yn cael eu postio i bob plwyf yn y DU a byddwn yn eich annog i nodi'r diwrnod arbennig ar gyfer morwyr. Os nad ydych wedi derbyn eich pecyn adnoddau, cysylltwch â'r Parch Ganon Bill Christianson, Ysgrifennydd Cyffredinol i Genhadaeth y Morwyr ar 020 7248 5202 ac e-bost: secgen@missiontoseafarers.org

**Sabothol**
Bydd yr Hybarch Meurig Llwyd Williams ar gyfnod sabothol o 1af Hydref 2009 i 1af Ionawr 2010. Pe bai unrhyw gymorth yn ofynnol yn ystod y cyfnod hwn, cysylltwch â'm swyddfa neu â'r Hybarch Emyr Rowlands.